# Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru

## Cynllun Corfforaethol 2023-2028

## Asesiad Effaith Integredig

Mawrth 2023

Cynnwys


1 **Trosolwg** ........ 4

2 **Manylion y cynllun** ........ 6

2.1 Teitl y Cynllun: ........ 6

2.2 Trosolwg byr o swyddogaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ........ 6

2.3 Crynodeb o'r cynllun: ........ 6

2.4 A yw hwn yn 'benderfyniad strategol'? ........ 7

2.5 Ar bwy y bydd y cynllun hwn yn effeithio'n uniongyrchol? ........ 7

2.6 Pryd a sut yr ymgynghorwyd â phobl? ........ 8

2.7 Beth oedd deilliannau'r ymgynghoriad? ........ 9

3 **Tystiolaeth** ........ 10

3.1 Pa dystiolaeth ddefnyddiwyd i asesu'r cynllun? ........ 10

4 **Cydraddoldeb** ........ 13

4.1. Sut mae'r cynllun yn effeithio ar bobl sy' n rhannu nodweddion gwarchodedig? ........ 13

4.2 Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i well effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol? ........ 15

5 **Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus** ........ 16

5.1 Sut fydd y cynllun yn cynorthwyo neu'n atal y gallu i gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus? ........ 16

5.2. Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i well effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol? ........ 17

6 **Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol** ........ 18

6.1. Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i leihau anghyfartaledd deilliant? ........ 19

7 **Cydlyniad Cymunedol/Allgáu Cymdeithasol/Tlodi** ........ 20

7.1 Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i well effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol? ........ 20

8 **Y Gymraeg** ........ 21

8.1 Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i well effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol? ........ 22

**9 Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. 23**

9.1 Sut fydd y cynllun yn cynorthwyo neu'n atal y gallu i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth? 23

9.2 Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i well effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol? 24

**10 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 25**

10.1 Sut y mae'r pum ffordd o weithio wedi cael eu gweithredu wrth ddatblygu'r cynllun hwn? 25

**11 Trefniadau Monitro 28**

**12 Casgliadau'r Asesiad 30**

12.1 Casgliad cyffredinol 31

12.2 Manylion y casgliad cyffredinol a gyrhaeddwyd yng nghyswllt y cynllun 31

**13 Camau Gweithredu 32**

13.1 Pa gamau sy'n ofynnol yng nghyswllt cael rhagor o ddata/gwybodaeth, i leihau neu gael gwared ar effeithiau negyddol neu wella effeithiau cadarnhaol? 32

**14 Cadarnhau 33**

# 1 Trosolwg

1.1 Mae Asesiad Effaith Integredig (AEI) yn ystyried dyletswyddau a gofynion y ddeddfwriaeth ganlynol er mwyn bod yn sail a sicrhau llunio penderfyniadau effeithiol a chydymffurfiad:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Rheolaeth Fersiwn**

| Fersiwn | Awdur | Teitl Swydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Fersiwn 1 | Karen Jones | Prif Weithredwr | 7 Rhagfyr 2022 |
| Fersiwn 1a | Karen Jones | Prif Weithredwr | Ionawr 2023 (newidiadau golygyddol bach o flaen llaw'r ymgynghoriad) |
| Fersiwn 2 | Karen Jones | Prif Weithredwr | 30 Mawrth 2023 |

1.2 Yn ei gyfarfod ar 11 Hydref 2022, mabwysiadodd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru (CBCDOC) yr Offeryn AEI yn seiliedig ar yr un a ddefnyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

1.3 Er mwyn i CBCDOC fedru dangos ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau sector cyhoeddus, inter alia, bydd CBCDOC yn defnyddio'r AEI fel peirianwaith i ystyried effaith cynigion wrth lunio penderfyniadau. Mae hyn eisoes yn arfer safonol ymhlith yr Awdurdodau sy'n Aelodau lle mae swyddogion yn arfer cyflwyno asesiad o effaith cynigion ar ddyletswyddau sy'n ymwneud â chydraddoldeb; nodweddion economaidd-gymdeithasol; y Gymraeg; tlodi plant; bioamrywiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i roi gwybodaeth wrth i'r Aelodau drafod.

# 2 Manylion y cynllun

## 2.1 Teitl y Cynllun:

2.1.1 Cynllun Corfforaethol Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru 2023-2028.

## 2.2 Trosolwg byr o swyddogaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru

2.2.1 Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf LlLE) y fframwaith ar gyfer peirianwaith cyson ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau llywodraeth leol, sef Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC). Mae'r Ddeddf LlLE yn darparu ar gyfer sefydlu CBC trwy Reoliadau (Rheoliadau Sefydlu CBC).

2.2.3 Bydd CBC yn arfer swyddogaethau yn ymwneud â chynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth rhanbarthol. Byddant hefyd yn gallu gwneud pethau i hyrwyddo llesiant economaidd eu hardaloedd. Yn wahanol i drefniadau cyd-bwyllgorau eraill, mae CBC yn gyrff corfforedig ar wahân a all gyflogi staff, dal asedau a chyllidebau, ac ymgymryd â swyddogaethau.

## 2.3 Crynodeb o'r cynllun:

2.3.1 Bydd Cynllun Corfforaethol CBCDOC (2023-2028) yn ceisio cofnodi cynnydd hyd yn hyn yn ogystal âc uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol ar ffurf gweledigaeth ac amcanion llesiant – ynghyd ag amcan cydraddoldeb. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i olrhain y cynnydd a wnaed o ran y

dyletswyddau sector cyhoeddus. Mae CBCDOC yn defnyddio dull cymesur ac integredig o gyflawni ei ddyletswyddau sector cyhoeddus trwy gynhyrchu un Cynllun Corfforaethol yn hytrach na chyfres o ddogfennau ar wahân.

## 2.4 A yw hwn yn 'benderfyniad strategol'?

2.4.1 Ydy. Er ei fod yn cael ei nodi bod cylch gorchwyl CBCDOC yn gul ac wedi ei gyfyngu i'r swyddogaethau penodol a nodir ym mharagraff 2.2.2 uchod, ystyrir bod y Cynllun Corfforaethol yn dal yn ddogfen strategol. Mae'n cynnwys amcanion llesiant all effeithio i raddau amrywiol ar boblogaeth gyfan y rhanbarth. Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys Gweledigaeth ac amcan cydraddoldeb.

2.4.2 Ond dylid nodi, fodd bynnag, y bydd y Cynghorau sy'n aelodau yn dal wedi eu rhwymo gan eu dyletswyddau eu hunain a'u gofynion deddfwriaethol, ac y bydd unrhyw gynlluniau a chynigion manwl fydd yn ymddangos gan CBCDOC yn y dyfodol (e.e. Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, Cynllun Datblygu Strategol) yn ddarostyngedig i'w hadolygiad penodol eu hunain o ran AEI. Yn y cyswllt hwn, nid yw cynhyrchu'r Cynllun Corfforaethol (a'r AEI hwn) yn diddymu'r angen i fynd â chynllun polisi penodol trwy'r broses AEI fel sy'n briodol.

## 2.5 Ar bwy y bydd y cynllun hwn yn effeithio'n uniongyrchol?

2.5.1 Gall effeithio ar bawb sy'n byw, gweithio a/neu yn ymweld â Rhanbarth De-orllewin Cymru.

2.5.2 Mae'n debygol mai'r Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni gwirioneddol sy'n ymddangos maes o law fydd yn cael mwyaf o effaith (gweler 2.4.2. uchod). Bydd angen i'r rhain gael eu hadolygu yn fanwl maes o law.

## 2.6 Pryd a sut yr ymgynghorwyd â phobl?

2.6.1 Datblygwyd yr AEI i gefnogi'r Cynllun Corfforaethol. Ystyrir bod angen AEI llawn (cam 2) gan bod y Cynllun Corfforaethol yn cael ei hystyried yn Ddogfen Strategol.

2.6.2 Rhoddwyd adroddiad am y Cynllun Corfforaethol mewn ffurf Drafft i'r CBCDOC yn Rhagfyr 2022, gyda'r Aelodau yn rhoi cymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos arno yn gynnar yn 2023. Cafodd ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd eu hadrodd yn ôl i'r Aelodau ar 30 Mawrth 2023 gyda'r Cynllun wedyn yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol. Gwnaeth yr ymgynghoriad hefyd rhoi tystiolaeth ddefnyddiol i'w hymwreiddio mewn i ail fersiwn o'r AEI hwn.

2.6.3 Arweiniodd yr ymatebion ymgynghoriad at ddiweddaru'r AEI, gyda diwygiadau a awgrymwyd hefyd yn cael eu gwneud i'r Cynllun Corfforaethol Drafft fel y bo'n briodol. Oherwydd y ffaith ei bod yn ddogfen strategol roedd arnom angen dysgu rhagor am yr effaith y bydd y Cynllun yn ei chael – yn benodol ar y nodweddion gwarchodedig.

2.6.4 Cynhaliwyd trafodaethau ar lefel swyddogion gyda chyfarwyddwyr adfywio'r rhanbarth a hynny'n bwydo i'r Cynllun. Ceisiwyd cyngor hefyd gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol penodol i sector – gan gynnwys Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a Swyddog Bioamrywiaeth

Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, rhoddwyd cyflwyniadau ar waith y CBC fel rhan o broses o godi ymwybyddiaeth – mae'r rhain yn cynnwys Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

### 2.7 Beth oedd deilliannau'r ymgynghoriad?

2.7.1 Bu'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda swyddogion / cyfarwyddwyr o gymorth wrth fframio'r Cynllun.

2.7.2 Ond gwyddom roedd angen i ni deall rhagor am unrhyw effaith a gaiff y Cynllun – ar nodweddion gwarchodedig yn benodol. Yn y cyswllt hwn, mae'r AEI hwn wedi cael ei ddiweddaru yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus. Dylid cyfeirio at gyfarfod y CBC ar 30 Mawrth 2023, lle ystyriwyd eitem ar y Cynllun Corfforaethol ac amlinellwyd nifer o ddiweddariadau i'r AEI hwn, ynghyd â'r Cynllun Corfforaethol ei hun.

# 3 Tystiolaeth

## 3.1 Pa dystiolaeth ddefnyddiwyd i asesu'r cynllun?

3.1.1 Cynhyrchwyd Cyfarwyddyd statudol gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â CBC. Mae amrywiaeth o faterion yn cael eu rhestru yno sydd angen i CBCDOC ymateb iddynt, yn benodol o ran dyletswyddau sector cyhoeddus. Mae'r materion hynny'n cynnwys: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (a gosod amcanion llesiant), Yr Iaith Gymraeg, Cydraddoldeb, Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, Rhyddid Gwybodaeth a Thlodi Plant.

3.1.2 Yn ei gyfarfod yn Hydref 2022, penderfynodd CBCDOC mai'r dull mwyaf addas o gyflawni ei ddyletswyddau sector cyhoeddus mewn modd cymesur ac integredig fyddai trwy ffurfio ei Gynllun Corfforaethol cyntaf erioed. Ystyrir bod ffurfio Cynllun Corfforaethol yn rhoi cyfle i gofnodi cynnydd y CBC hyd yn hyn yn ogystal â nodi ei uchelgeisiau at y dyfodol – gan gynnwys gosod ei Weledigaeth ar gyfer De-orllewin Cymru 2035 a dynodi amcanion llesiant. Gan gyfeirio'n benodol at Fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, dylid nodi bod y CBC yn ymwreiddio ei Gynllun Dyletswydd Adran 6 yn ei Gynllun Corfforaethol.

3.1.3 Wrth ffurfio'r Cynllun, rydym wedi edrych ar y pwerau a'r dyletswyddau sy'n ymwneud â CBC, y cyfarwyddyd statudol a roddwyd ac rydym wedi adolygu cynnydd hyd yn hyn o ran sefydlu'r CBC ac agweddau cyfansoddiadol.

3.1.4 Rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law (ac wedi eu cynnwys drwy ddull ailadroddus yn yr AEI hwn fel y bo'n briodol).

3.1.5 Yr isod yw'r agweddau tystiolaethol allweddol / elfennau gyrru polisi sydd wedi bod yn sail i'r Cynllun.

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Trefniadau cyfansoddiadol a llywodraethu CBCDOC ers ei sefydlu;
- Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040;
- Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru;
- Strategaeth Ynni Ranbarthol De-orllewin Cymru;
- Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021;
- Bargen Ddinesig Bae Abertawe;
- Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020;
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - 7 nod cenedlaethol a 5 ffordd o weithio;
- Cyd-bwyllgor Corfforedig: crynodeb o'r cyfarwyddyd statudol;

- Llywodraeth Cymru - Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024;
- A yw Cymru'n decach 2018
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) Cymru;
- Datganiad Ardal De-orllewin Cymru;
- Adroddiad Llesiant Cymru 2022

# 4 Cydraddoldeb

## 4.1. Sut mae'r cynllun yn effeithio ar bobl sy' n rhannu nodweddion gwarchodedig?

| Nodwedd Warchodedig | + | - | +/- | Pam y bydd yn cael yr effaith hon? |
|---|---|---|---|---|
| Oedran | + | | | Byddai'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol (CCERh) yn dynodi bod Amcan Llesiant 1 y Cynllun Corfforaethol yn cynnig cyfleoedd penodol yn ymwneud â llesiant economaidd, gyda golwg ar ragolygon swyddi yn y dyfodol ac yn fwyaf penodol gyda golwg ar gadw grwpiau iau o ran oedran yn ein rhanbarth. Mae'r adolygiad o berfformiad economaidd yn y rhanbarth yn awgrymu cynnydd da dros y blynyddoedd diwethaf, yn neilltuol o ran creu swyddi, ond mae bwlch parhaus yn y deilliannau rhwng y rhanbarth a gweddill y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn adlewyrchu natur 'strwythurol' llawer o heriau'r rhanbarth sy'n gysylltiedig â phrosesau tymor hir newid diwydiannol (sydd yn parhau mewn rhai agweddau), ac sy'n cael eu rhannu gyda rhanbarthau eraill yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Mae cyfres o gryfderau a chyfleoedd penodol yn Ne-orllewin Cymru, wedi eu cysylltu'n arbennig â photensial ynni'r rhanbarth (ynni gwyrdd yn neilltuol a'r cyfle sero net), cysylltiadau rhwng prifysgolion a diwydiant, hunaniaeth ddiwylliannol gref, asedau amgylcheddol a'r ansawdd bywyd yma. Nod y CCERh yw adeiladu ar y cryfderau a chyfleoedd rhanbarthol penodol yma i ddatblygu economi fwy ffyniannus a gwydn yn Ne-orllewin Cymru.<br><br>Gan gyfeirio at oedrannau hŷn, mae Amcan Llesiant 2 y Cynllun Corfforaethol yn cynnig cyfleoedd penodol yn ymwneud â thrafnidiaeth gynaliadwy trwy gynhyrchu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cydnabod y Datganiad cydraddoldeb a nodir yn Llwybr Newydd sef gwneud ein gwasanaethau trafnidiaeth a'n |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | seilwaith yn hygyrch a chynhwysol trwy anelu at gael gwared ar y rhwystrau ffisegol, agweddol, amgylcheddol, systemig, ieithyddol ac economaidd sy'n atal pobl rhag defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy. |
| Anabledd | + | | | Mae Amcan Llesiant 2 y Cynllun Corfforaethol t yn cynnig cyfleoedd penodol yn ymwneud â thrafnidiaeth gynaliadwy trwy gynhyrchu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cydnabod y Datganiad cydraddoldeb a nodir yn Llwybr Newydd sef gwneud ein gwasanaethau trafnidiaeth a'n seilwaith yn hygyrch a chynhwysol trwy anelu at gael gwared ar y rhwystrau ffisegol, agweddol, amgylcheddol, systemig, ieithyddol ac economaidd sy'n atal pobl rhag defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy. |
| Ailbennu rhywedd | | | +/- | Nid yw'r effeithiau ar y grŵp hwn yn hysbys ar hyn o bryd, gyda'r adborth o'r ymgynghoriad dim yn darparu unrhyw wybodaeth benodol. Byddwn yn parhau i fonitro yn hyn o beth. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | | | +/- | Nid yw'r effeithiau ar y grŵp hwn yn hysbys ar hyn o bryd, gyda'r adborth o'r ymgynghoriad dim yn darparu unrhyw wybodaeth benodol. Byddwn yn parhau i fonitro yn hyn o beth. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | | | +/- | Nid yw'r effeithiau ar y grŵp hwn yn hysbys ar hyn o bryd, gyda'r adborth o'r ymgynghoriad dim yn darparu unrhyw wybodaeth benodol. Byddwn yn parhau i fonitro yn hyn o beth. |
| Hil | | | +/- | Nid yw'r effeithiau ar y grŵp hwn yn hysbys ar hyn o bryd, gyda'r adborth o'r ymgynghoriad dim yn darparu unrhyw wybodaeth benodol. Byddwn yn parhau i fonitro yn hyn o beth. |
| Crefydd neu gred | | | +/- | Nid yw'r effeithiau ar y grŵp hwn yn hysbys ar hyn o bryd, gyda'r adborth o'r ymgynghoriad dim yn darparu unrhyw wybodaeth benodol. Byddwn yn parhau i fonitro yn hyn o beth. |
| Rhyw | | | +/- | Nid yw'r effeithiau ar y grŵp hwn yn hysbys ar hyn o bryd, gyda'r adborth o'r ymgynghoriad dim yn darparu unrhyw wybodaeth benodol. Byddwn yn parhau i fonitro yn hyn o beth. |
| Cyfeiriadedd rhywiol | | | +/- | Nid yw'r effeithiau ar y grŵp hwn yn hysbys ar hyn o bryd, gyda'r adborth o'r ymgynghoriad dim yn darparu unrhyw wybodaeth benodol. Byddwn yn parhau i fonitro yn hyn o beth. |

### 4.2 Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i well effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?

4.2.1 Roedd angen ymgynghori i geisio dynodi gwir effaith ar amrywiaeth o feysydd fel yr amlinellir yn 4.1 ac i archwilio camau lliniaru posibl i'w hystyried. Byddai paratoi Strategaeth Cyfranogi yn caniatáu cryfhau effeithiau cadarnhaol ymhellach. Nodir y cyfraniad cadarnhaol anuniongyrchol posibl y gellir ei wneud o ran cyfleoedd chwaraeon a hamdden. Hefyd, nodir yr effaith gadarnhaol bosibl o ran cyflogaeth i bob grŵp oedran ac i bobl ag anabledd a fyddai'n deillio o gyflawni amcan llesiant 1. Wrth i waith y Cyd-bwyllgor Corfforedig fynd yn ei flaen, bydd yn bwysig cael dealltwriaeth o'r sefyllfa anableddau ac anghydraddoldebau gan ei fod yn berthnasol i'r rhanbarth fel rhan o ddatblygiad sylfaen dystiolaeth nodedig leol.

Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru
Corporate Joint Committee for South West Wales

# 5 Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus

## 5.1 Sut fydd y cynllun yn cynorthwyo neu’n atal y gallu i gyflawni’r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus?

<table>
<tr><th>Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus</th><th>+</th><th>-</th><th>+/-</th><th>Pam y bydd yn cael yr effaith hon?</th></tr>
<tr><td>Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid</td><td>+</td><td></td><td></td><td rowspan="3">O ran y datganiad llesiant a nodir yn Adran 5 y Cynllun Corfforaethol, cyfeirir at y sylwebaeth a roddir o ran y nodau llesiant.<br><br>Llesiant economaidd (amcan llesiant 1): Dylai deilliannau cynhwysiant economaidd gwell wella cydlyniad pan fyddant yn gysylltiedig â rhaglenni a pheirianweithiau sy’n canolbwyntio ar gynnwys ac ymgysylltu â’r gymuned leol.<br><br>Trafnidiaeth (amcan llesiant 2): System drafnidiaeth sy’n cyfrannu at ein huchelgeisiau economaidd ehangach, ac sy’n helpu cymunedau lleol, yn cefnogi cadwyn gyflenwi fwy cynaliadwy, yn defnyddio’r syniadau arloesol diweddaraf ac yn ymdrin â fforddiadwyedd trafnidiaeth.<br><br>Cynllunio Strategol (amcan llesiant 3): Rhanbarth lle mae pobl yn byw ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy ac mewn llefydd gwledig llewyrchus lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau.</td></tr>
<tr><td>Hybu cydraddoldeb cyfle rhwng gwahanol grwpiau</td><td>+</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau</td><td>+</td><td></td><td></td></tr>
</table>

## 5.2. Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i well effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?

5.2.1 Ceisiwyd cael adborth o'r ymgynghoriad ffurfiol i roi rhagor o wybodaeth ar gyfer yr adran hon. Nodir pwysigrwydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n adlewyrchu cyfle cyfartal rhwng y rhai mewn ardaloedd trefol a'r rhai mewn ardaloedd gwledig.

# 6 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

| Effaith | Manylion yr effaith/mantais/anfantais |
|---|---|
| Cadarnhaol/Mantais **+**<br>~~Negyddol/Anfantais~~<br>~~Niwtral~~ | O ran y datganiad llesiant a nodir yn y Cynllun Corfforaethol, cyfeirir at y sylwebaeth a roddir o ran y nodau llesiant.<br>**Llesiant economaidd (amcan llesiant 1):** - Mae'r CCERh yn cydnabod yr angen i gynnwys model 'twf cynhwysol' yn y strategaeth, trwy ymdrechion i gefnogi deilliannau sgiliau, cydnerthedd o ran awtomeiddio, neu beirianwaith i gefnogi cadw mwy o gyfoeth yn y gymuned. Hefyd - cynyddu cynhyrchiant a thwf economaidd, i gefnogi creu a diogelu mwy o swyddi â chyflogau gwell, cyfleoedd i gychwyn busnesau a'u tyfu, a rhagor o gysylltiadau rhwng y gronfa o wybodaeth a diwydiant.<br>**Trafnidiaeth (amcan llesiant 2): -** Da i bobl a chymunedau - System drafnidiaeth sy'n cyfrannu at Gymru fwy cyfartal ac at Gymru iachach, y mae gan bawb yr hyder i'w defnyddio. Da i leoedd ac economi - System drafnidiaeth sy'n cyfrannu at ein huchelgeisiau economaidd ehangach, ac sy'n helpu cymunedau lleol, yn cefnogi cadwyn gyflenwi fwy cynaliadwy, yn defnyddio'r syniadau arloesol diweddaraf ac yn ymdrin â fforddiadwyedd trafnidiaeth.<br>**Cynllunio Strategol (amcan llesiant 3):** - Rhanbarth lle mae pobl yn byw mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy. Rhanbarth lle mae pobl yn byw mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo - gyda seilwaith digidol o'r radd flaenaf. |

### 6.1. Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i leihau anghyfartaledd deilliant?

6.1.1 Ceisiwyd cael adborth o’r ymgynghoriad ffurfiol i roi rhagor o wybodaeth ar gyfer yr adran hon. Nodir pwysigrwydd Busnesau Bach a Chanolig.

# 7 Cydlyniad Cymunedol/Allgáu Cymdeithasol/Tlodi

| | | - | +/- | **Pam y bydd yn cael yr effaith hon?** |
|---|---|---|---|---|
| Cydlyniad Cymunedol | + | | | Rhagwelir y bydd 3 amcan llesiant y Cynllun Corfforaethol, yn unigol ac ar y cyd, yn cael effaith gadarnhaol i unigolion a chymunedau fel ei gilydd; gan gynyddu rhyngweithio cymdeithasol a diwylliannol, cyfranogiad a gwelliant/sefydlogrwydd economaidd.<br>Cyfeirir yn benodol hefyd at ddynodi Amcan Cydraddoldeb yn y Cynllun Corfforaethol a'r bwriad i gyflawni 'De-orllewin Cymru mwy cynhwysol'.<br>Dylid nodi hefyd, er mwyn adolygu effaith bosibl sefydlu CBC, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru asesiadau effaith – gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac Asesiad Effaith Integredig. Ystyrir ynddynt y bydd cysoni swyddogaethau cynllunio strategol ar lefel ranbarthol yn helpu i sefydlu / gryfhau llesiant economaidd rhanbarth gan gynyddu ffyniant a lleihau anfantais. Nodir bod CBC yn galluogi cynllunio gwasanaethau strategol allweddol ar raddfa a all fod yn sail i gynllunio a chyflawni'r swyddogaethau penodol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol a chefnogi ymdrechion i daclo anfantais economaidd-gymdeithasol a thaclo amddifadedd. |
| Allgáu Cymdeithasol | + | | | |
| Tlodi | + | | | |

## 7.1 Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i well effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?

7.1.1 Ceisiwyd cael adborth o'r ymgynghoriad ffurfiol i roi rhagor o wybodaeth ar gyfer yr adran hon.

# 8 Y Gymraeg

| | + | - | +/- | Pam y bydd yn cael yr effaith hon? |
|---|---|---|---|---|
| Pa effaith fydd y cynllun yn ei gael ar:<br>– gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg | + | | | Mae Gweledigaeth y Cynllun Corfforaethol yn glir iawn wrth nodi'r cyfeiriad corfforaethol fel y dangosir yn y dyfyniad hwn "*mae De-orllewin Cymru yn fan lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu ac mae'r rhanbarth yn parhau i fod yn gyfrannwr allweddol at y targed cenedlaethol o gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.*"<br>Dynoda adolygiad o'r 3 amcan llesiant (sydd yn eu tro ynghlwm â swyddogaethau llesiant economaidd, cynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a chynhyrchu Cynllun Datblygu Rhanbarthol) yr ymyraethau cadarnhaol canlynol:<br>**Llesiant economaidd (amcan llesiant 1):** - Y CCERh Dylai camau i gefnogi twf yr economi greadigol (gan gynnwys rhai cysylltiedig â'r Gymraeg) roi cefnogaeth uniongyrchol, a gallant fod yn rhan bwysig o gynllun buddsoddi De-orllewin Cymru. Yn fwy eang bydd pwyslais ar geisio cefnogi bywiogrwydd economaidd y rhanbarth, gan gynnwys cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith.<br>**Trafnidiaeth (amcan llesiant 2)**- Da i'r diwylliant a'r iaith Gymraeg - System drafnidiaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg, yn galluogi mwy o bobl i ddefnyddio cludiant cynaliadwy i gyrraedd gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol, ac yn diogelu a chryfhau'r amgylchedd hanesyddol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cynllunio Strategol (amcan llesiant 3):** - Rhanbarth lle mae pobl yn byw mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. Dylid nodi wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol – bydd ystyriaethau polisi yn eu lle y bydd yn rhaid eu hystyried - yn benodol Nodyn Cyngor Technegol 20 – Yr Iaith Gymraeg. |
| – trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal | + | | | Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys adran benodol (paragraff 8.2) ar y mater hwn. Mae hwn yn cadarnhau, yn absenoldeb gorfodi safonau gan Gomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi defnyddio dull rhagweithiol, yn arbennig o ystyried amlygrwydd yr iaith yng ngwead cymdeithasol ein rhanbarth. Yn ein cyfarfod yn Hydref 2022, fe wnaethom gadarnhau'r egwyddor o fabwysiadu safonau Cyngor Sir Caerfyrddin fel ein polisi dros dro. Yr hyn y mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd yw o ran llywodraethu a gweithredu, mae trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wedi ymwreiddio'n ddwfn yn ein trefniadau gweithredol a llywodraethu o'r dechrau.<br><br>Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi ei gyhoeddi'n ddwyieithog. Nodir cyfeiriad at gyllidebu yn y Cynllun Corfforaethol a dylid nodi bod cyllideb benodol yn ei lle ar gyfer cyfieithu. |

## 8.1 Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i well effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?

8.1.1 Byddwn yn defnyddio'r AEI i adolygu a phan fydd yn berthnasol i geisio dynodi camau lliniaru o ran unrhyw effeithiau negyddol.

8.1.2 Byddwn yn parhau i fonitro a gweithredu'r defnydd o'r safonau a rhoi adroddiadau fel fydd yn briodol. Byddwn yn parhau i gynnal deialog adeiladol gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

# 9 Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

## 9.1 Sut fydd y cynllun yn cynorthwyo neu'n atal y gallu i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth?

| Dyletswydd Bioamrywiaeth | + | - | +/- | Pam y bydd yn cael yr effaith hon? |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal a gwella bioamrywiaeth. | + | | | Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cyfeirio'n glir at Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Fel un o'r Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, mae'n ofynnol i CBCDOC gynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag y mae'n gyson ag arfer priodol ar ei swyddogaethau ac wrth wneud hynny yn hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. Yn y cyswllt hwn, mae CBCDOC yn defnyddio dull rhagweithiol trwy ymwreiddio Cynllun yn nodi beth mae yn bwriadu ei wneud i gydymffurfio a'r ddyletswydd Adran 6 yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r CBCDOC wedi cyhoeddi adroddiad cynnydd Adran 6. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhoi bachyn ar lefel uchel ar gyfer y meysydd manwl hynny o bolisi a strategaeth fydd yn dilyn. |
| Hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, h.y. cefnogi diogelu'r amgylchedd ehangach, fel ansawdd aer, lliniaru llifogydd ac ati. | + | | | Ar lefel uchel, dylid nodi bod Gweledigaeth y Cynllun yn glir iawn – yn benodol y cyfeiriad at yr *"angen i gryfhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac ecosystemau wedi eu hymwreiddio yn gadarn yn y strwythurau llunio penderfyniadau sy'n gytbwys a chynhwysol ac sy'n cydnabod yr angen i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy a lleihau llygredd gan arwain at fannau gydag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig.* Mae'r dull a'r pwyslais yn y Cynllun Corfforaethol ar ymwreiddio ystyried dyletswyddau sector cyhoeddus yn llywodraethu corfforaethol CBCDOC, gan nodi ein swyddogaethau penodol a'r ffaith y bydd y gwaith fydd yn cael ei wneud (e.e. Cynllun Datblygu Strategol) yn ddarostyngedig i graffu trylwyr o ran dynodiadau (gan gynnwys Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol) ynghyd â chyd-fynd â pholisïau – e.e. Nodyn Cyngor Technegol 5 - cynllunio a chadwraeth natur. |

## 9.2 Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i well effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?

9.2.1 Byddwn yn defnyddio’r AEI i adolygu a phan fydd yn berthnasol i geisio dynodi camau lliniaru o ran unrhyw effeithiau negyddol. Nodir pwysigrwydd y dirwedd hanesyddol a'r dreftadaeth adeiledig, yn ogystal â sector amaethyddol cynaliadwy ac ymgysylltiedig.

9.2.2 Byddwn yn parhau i fonitro a gweithredu’r defnydd o’r Cynllun Dyletswydd Adran 6 a rhoi adroddiadau fel fydd yn briodol. Rydym yn cynnal dialog gydag ecolegwyr rhanbarthol, yn ogystal â swyddogion polisi bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru.

# 10 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## 10.1 Sut y mae'r pum ffordd o weithio wedi cael eu gweithredu wrth ddatblygu'r cynllun hwn?

| Ffyrdd o Weithio | Manylion |
|---|---|
| i. **Hirdymor –** edrych ar o leiaf 10 mlynedd (a hyd at 25 mlynedd) ymlaen | Dylid nodi hefyd y bydd y Cynghorau sy'n Aelodau yn cael eu rhwymo gan eu gofynion eu hunain o ran Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Adran 5 y Cynllun Corfforaethol yn nodi datganiad llesiant ar gyfer CBCDOC. Yn y cyswllt hwn, cyfeirir at baragraff 5.2.1 - yn benodol "mae'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd cenedlaethau'r dyfodol ymhlyg yn ein gweledigaeth ac amcanion llesiant, yn fwyaf trawiadol yn y ffaith bod y weledigaeth (ac fel y cyfryw'r amcanion a ddyluniwyd i gyflawni'r weledigaeth) wedi eu fframio mewn cyd-destun amser h.y. 'De-orllewin Cymru 2035'. Mae ein hamcanion llesiant hefyd wedi bod yn sail i'n hamcan cydraddoldeb". |
| ii. **Atal** – atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth | Dylid nodi hefyd y bydd y Cynghorau sy'n Aelodau yn cael eu rhwymo gan eu gofynion eu hunain o ran Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Adran 5 y Cynllun Corfforaethol yn nodi datganiad llesiant ar gyfer CBCDOC. Yn y cyswllt hwn cyfeirir at baragraff 5.2.2. - yn benodol "Mae'r nodau llesiant Cenedlaethol wedi chwarae rhan allweddol wrth ddynodi amcanion llesiant CBCDOC". Yn y cyswllt hwn, mae Tabl 1 yn y Cynllun Corfforaethol yn cynnal adolygiad manwl gan gydnabod y bydd cyfraniadau uniongyrchol yn cael eu gwneud tuag at y nodau hynny sydd fwyaf cyson â'r pwerau a'r dyletswyddau sydd ar gael i CBCDOC. |
| iii. **Cydweithio –** gweithio gyda gwasanaethau eraill mewnol neu allanol | Dylid nodi hefyd y bydd y Cynghorau sy'n Aelodau yn cael eu rhwymo gan eu gofynion eu hunain o ran Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Adran 5 y Cynllun Corfforaethol yn nodi datganiad llesiant ar gyfer CBCDOC. Yn y cyswllt hwn cyfeirir at baragraff 5.2.3 – yn benodol y cadarnhad y bydd y Cynllun Corfforaethol ei hun wedi bod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad. |

| | |
|---|---|
| iv. **Cynnwys –** cynnwys pobl, sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth | Dylid nodi hefyd y bydd y Cynghorau sy'n Aelodau yn cael eu rhwymo gan eu gofynion eu hunain o ran Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Adran 5 y Cynllun Corfforaethol yn nodi datganiad llesiant ar gyfer CBCDOC. Yn y cyswllt hwn cyfeirir at baragraff 5.2.4 – yn benodol "Cydweithio yw hanfod ffordd CBCDOC o weithio, o'r ffordd y mae wedi ei lunio (h.y. arweinwyr Cynghorau'r rhanbarth) i'r ffordd y mae yn ceisio sefydlu swyddogaeth fframwaith cyfethol a chynghori". Dylid nodi hefyd bod holl amcanion llesiant y Cynllun Corfforaethol yn cyfeirio at gydweithio. |
| **v. Integreiddio –** llunio cysylltiadau i wneud y cyfraniad mwyaf at: | Dylid nodi hefyd y bydd y Cynghorau sy'n Aelodau yn cael eu rhwymo gan eu gofynion eu hunain o ran Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Adran 5 y Cynllun Corfforaethol yn nodi datganiad llesiant ar gyfer CBCDOC. Yn y cyswllt hwn cyfeirir at baragraff 5.2.5 – yn benodol y dyfyniad canlynol "Rydym wedi gosod llwybr llif a chyflawni clir o'r adolygiad problemau/polisi, hyd at y Weledigaeth ac ymlaen i'r 3 Amcan Llesiant eu hunain. Rydym yn gwybod i ble yr ydym am fynd a sut yr ydym yn mynd i gyrraedd yno. Rydym yn hyderus bod ein Hamcanion Llesiant yn Benodol, Mesuradwy, yn rhai y gellir eu Cyflawni ac yn Berthnasol (h.y. mae gennym ddyletswyddau a/neu bwerau i gyflawni arnynt erbyn 2035) oherwydd eu bod yn rhai y gellir eu cyflawni'n gyfreithiol a'u bod hefyd yn deillio o werthfawrogiad o'r problemau, heriau a chyfleoedd allweddol yr ydym yn eu hwynebu yn Ne-orllewin Cymru." |
| **Amcanion Llesiant y Cynghorau sy'n Aelodau** | Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys datganiad llesiant sy'n cynnwys y datganiad canlynol "*Mae paratoi'r Cynllun Corfforaethol hwn wedi creu mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i ni ddatblygu Strategaeth Gyfranogi. Wrth nodi bod gan y Cynghorau sy'n Aelodau eu strategaethau eu hunain a'u harferion ymgysylltu, mae gennym gyfle i ddatblygu dull sy'n gymesur ac nad yw'n dyblygu darpariaethau sy'n bodoli yn y rhanbarth*" Hefyd y canlynol – "*Wrth gyflawni ein swyddogaethau, rydym yn weithredol yn ymwreiddio 5 ffordd o weithio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein dull o lywodraethu corfforaethol. Hefyd, wrth osod ein hamcanion llesiant ein hunain, rydym yn nodi'r angen i ystyried y Cynlluniau Llesiant ar draws y rhanbarth. Byddwn yn ceisio gweithio mewn ffordd integredig a chydweithredol a chydnabod y gwaith sylweddol sydd wedi ei wneud hyd yn hyn gan y Cynghorau a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws y rhanbarth".* |

| | |
|---|---|
| **Amcanion cyrff cyhoeddus eraill** | Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys datganiad llesiant sy'n cynnwys y datganiad canlynol "*Wrth osod ein hamcanion llesiant ein hunain, bydd angen i ni ystyried y Cynlluniau Llesiant sydd eisoes yn eu lle ar draws y rhanbarth fel rhan o ddull cydweithredol ac integredig*" |

# 11 Trefniadau Monitro

**<u>Gwybodaeth am y trefniadau monitro i fonitro effaith y cynllun ar Gydraddoldeb, Cydlyniad Cymunedol, Mesur y Gymraeg, y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a'r Amcanion Llesiant.</u>**

11.1 Mae Adran 9 o'r Cynllun Corfforaethol yn nodi sylwebaeth ar reoli perfformiad. Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn fydd yn ystyried a yw'r amcanion llesiant yn parhau'n briodol. Pan fydd angen, bydd yr amcanion llesiant a'r blaenoriaethau gwella yn cael eu diwygio. Bydd yn ofynnol i ni roi adroddiad ar y cynnydd a wnaethom o ran cyflawni ein hamcanion llesiant ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Rhaid i Adroddiadau Blynyddol gael eu cyhoeddi mor fuan ag sy'n bosibl, ond dim hwyrach na 31 Mawrth. Wrth baratoi ein hadroddiad rhaid i ni adolygu ein hamcanion llesiant. Bydd angen i ni ddangos:

- bod ein hamcanion llesiant yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant;
- ein bod yn cymryd yr holl gamau rhesymol i gyflawni ein hamcanion llesiant; a
- ein hamcanion llesiant yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

11.2 Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi a'i gyfleu fel sy'n briodol. Gall fod swyddogaeth ar gyfer Is-bwyllgor Goruchwylio a Chraffu'r CBC. Bydd y camau manwl, a nodir yn y Cynllun, yn cael eu monitro. Cam allweddol ymlaen o safbwynt llywodraethu a chyflawni yw ein bod wedi creu 4 is-bwyllgor, gyda chylch gorchwyl pob un o'r rhain wedi ei gytuno yn Hydref 2022. Bydd gan yr is-bwyllgorau hyn ran allweddol wrth yrru cyflawni ein 3 amcan llesiant yn eu blaenau.

# 12 Casgliadau'r Asesiad

| | Casgliad |
|---|---|
| **Cydraddoldeb** | Mae'r AEI hwn wedi cael ei ailymweld yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Ymhellach i'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd, ni ystyrir bod angen unrhyw newid i'r effeithiau asesu – er bod testun wedi'i fewnosod yn yr AEI mewn ymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd. Dylid cyfeirio at gyfarfod y CBC ar 30 Mawrth 2023, lle ystyriwyd eitem ar y Cynllun Corfforaethol ac amlinellwyd nifer o ddiweddariadau i'r AEI hwn, ynghyd â'r Cynllun Corfforaethol ei hun. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | |
| **Cydlyniad Cymunedol/ Allgáu Cymdeithasol/Tlodi** | |
| **Y Gymraeg** | |
| **Bioamrywiaeth** | |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | |

## 12.1 Casgliad cyffredinol

- **Parhau** - fel y cynlluniwyd gan nad oes problemau a gwnaed y mwyaf o bob cyfle ☒
- **Gwneud addasiadau** - gan i broblemau posibl/cyfleoedd a gollwyd/effeithiau negyddol gael eu dynodi ynghyd â chamau lliniaru ☐
- **Cyfiawnhad** - dros barhau gyda'r cynllun er bod potensial ar gyfer effeithiau negyddol neu golli cyfleoedd ☐
- **ATAL** - ailddrafftio'r cynllun gan fod gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl wedi cael ei ddynodi ☐

## 12.2 Manylion y casgliad cyffredinol a gyrhaeddwyd yng nghyswllt y cynllun

12.2.1 Nid oes unrhyw bryderon o ran yr AEI ac mae'r Cynllun Corfforaethol yn addas.

Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru
Corporate Joint Committee for South West Wales

# 13 Camau Gweithredu

## 13.1 Pa gamau sy'n ofynnol yng nghyswllt cael rhagor o ddata/gwybodaeth, i leihau neu gael gwared ar effeithiau negyddol neu wella effeithiau cadarnhaol?

| **Gweithred** | **Pwy fydd yn gyfrifol am ofalu ei fod yn cael ei wneud?** | **Erbyn pryd y bydd yn cael ei wneud?** | **Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni ein hamcan?** |
|---|---|---|---|
| Rhoddwyd cymeradwyaeth gan yr Aelodau yn Rhagfyr 2022, am ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft am gyfnod o 6 wythnos.<br><br>Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, ceision cael rhagor o wybodaeth i fod yn sail i'r AEI hwn lle mae bylchau yn y dystiolaeth. | Rhoddwyd holiadur yr ymgynghoriad ar wefan y CBC; fodd bynnag gofynnwyd i'r holl Gynghorau sy'n Aelodau a'r Parciau Cenedlaethol ddarparu cysylltiadau ar draws i'r holiadur o'u platfformau ymgynghori. Gofynnwyd i'r holl Gynghorau sy'n Aelodau a'r Parciau Cenedlaethol godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad trwy eu rhwydweithiau a'u cysylltiadau sefydledig. Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu casglu a'u hystyried gan yr Aelodau ar 30 Mawrth 2023. | Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am chwe wythnos rhwng Dydd Iau 26 Ionawr 2023 00:00 a Dydd Mercher 8 Mawrth 2023 23:59. | Byddwn wedi cynnal ymarfer ymgynghori cynhwysfawr, gan ystyried yr holl ymatebion yn llawn. |
| Ein cam nesaf fydd monitro effaith y Cynllun – yn arbennig o ran y broses AEI hwn. | Bydd y CBC yn cynhyrchu Adroddiadau Blynyddol ar y cynnydd a wnaed ar yr amcanion llesiant. | Yn flynyddol | Cwblhau a chyhoeddi adroddiadau. |

# 14 Cadarnhau

| | Enw | Swydd | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd gan** | **Karen Jones** | **Prif Weithredwr** | **Karen Jones** | **Mawrth 2023** |
| **Llofnodwyd i ffwrdd gan** | **Cyfarfod y CBC ar 30 Mawrth 2023** | | | **30 Mawrth 2023** |